

Edexcel GCE

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Gymhwysol

Uned 7: Defnyddio Meddalwedd Cronfa Ddata

Mai 2011

Senario

Cyfeirnod y Papur

6957/01

Dylai'r senario gael ei ddsbarthu i ymgeiswyr o leiaf dair wythnos waith cyn yr arholiad.

Sylwch: **Nid** oes ffeiliau ymarfer ar gyfer yr arholiad hwn.

Dylai'r senario hwn gael ei ddefnyddio at ddiben paratoi ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad. **Ni chaniateir** mynd â'r copi hwn i mewn i'r arholiad. Bydd y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y senario yn cael ei chynnwys yn y papur arholiad.

Mae mwy o fanylion i'w cael yn y Cyfarwyddiadau ar gyfer Cynnal Arholiadau (ICE), sydd ar gael o wefan Edexcel ar gyfer y cymhwyster hwn.

Ni fydd Edexcel yn derbyn unrhyw gais am ystyriaeth arbennig os rhoddir y senario anghywir i ymgeiswyr ar gyfer yr arholiad y maent yn ei sefyll.

Trowch y dudalen

W40788A

©2011 Edexcel Limited.

1/



edexcel 

advancing learning, changing lives

Senario

Clwb Sinema Ysgol Moreshire

Mae Charlotte Spencer yn mynd i Ysgol Moreshire. Mae hi'n mwynhau gwyllo ffilmiau yn y sinema. Mae hi'n gwybod bod llawer o fyfyrwyr eraill yn mwynhau'r sinema hefyd.

Mae'r ysgol yn cynnal clybiau ar brynhawn dydd Mercher. Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol flaenorol, gofynnwyd i'r myfyrwyr a oedd unrhyw syniadau ganddyn nhw ar gyfer clybiau newydd. Meddylodd Charlotte y byddai clwb sinema yn boblogaidd. Daeth syniad Charlotte yn y deg uchaf mewn pleidlais ac erbyn hyn, mae'r clwb wedi bod yn rhedeg ers blwyddyn. Mae'r clwb yn trefnu ymweliadau grŵp â'r sinema ac yn casglu adolygiadau gan y myfyrwyr yn dilyn yr ymweliad.

Charlotte sy'n gyfrifol am gofnodion (*records*) y clwb. Mae'r rhain yn cynnwys manylion y ffilmiau y mae'r myfyrwyr wedi eu gwyllo, beth oedd barn y myfyrwyr a chofnodion o daliadau'r myfyrwyr. Ar hyn o bryd, mae'r rhain yn cael eu hysgrifennu â llaw ac mae Charlotte yn wastad yn eu colli nhw neu'n gwneud camgymeriadau. Er enghraifft, mae hi'n gofyn am arian gan aelodau sydd eisoes wedi talu am ffilm neu mae hi'n gofyn am adolygiad o ffilm nad ydyn nhw wedi ei gwyllo.

Dyma lle mae eich angen chi. Mae Charlotte yn gwybod eich bod yn astudio TGCh (*ICT*) ac mae hi'n meddwl y byddwch chi'n gallu datblygu datrysiad sy'n defnyddio TG. Yn y lle cyntaf, cytunwyd y byddwch chi'n dylunio ac yn adeiladu **prototeip** o system gronfa ddata berthynol (*relational*) a fydd yn canolbwyntio ar bedair tasg. Bydd y system derfynol wedi ei seilio ar eich gwerthusiad o'r prototeip a'ch argymhellion chi ar gyfer swyddogaethau (*functionality*) pellach.

Dyma'r tasgau.

1. Cofrestru

Mae Charlotte yn dymuno bod sgrin gofrestru yn cael ei chyflwyno i'r myfyrwyr, gyda'r sgrin yn caniatáu iddyn nhw wneud cais i ymuno. Dylai'r broses gofrestru gynnwys:

- gwirio eu bod nhw'n ddigon hen i ymuno
- cynhyrchu enw defnyddiwr unigryw, sy'n cyfuno llythrennau o enw'r myfyriwr â rhif dilyniannol (*sequential*) sydd bob amser un yn uwch na'r rhif uchaf sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd
- cadw manylion yr aelod os caiff yr holl ofynion eu bodloni. Dylid gosod cyfrinair rhagosodedig (*default*) (sef *teapot*)
- arddangos negeseuon i'r defnyddiwr fel ei fod yn gwybod beth sy'n digwydd.

2. Mewngofnodi

Mae Charlotte eisiau i'r aelodau allu mewngofnodi. Dim ond rhai agweddau ar y broses fewngofnodi fydd yn cael eu rhoi ar waith yn y fersiwn prototeip hwn. Dylai'r broses fewngofnodi gynnwys:

- aelodau'n cofnodi eu henw defnyddiwr a'u cyfrinair
- gwirio bod yr enw defnyddiwr a'r cyfrinair yn ddilys
- rhybudd os yw'r cyfrinair rhagosodedig heb gael ei newid
- neges bod y mewngofnodi wedi bod yn llwyddiannus os yw'r manylion yn bresennol ac yn ddilys.

3. **Olrhain taliadau**

Dyma un o dasgau Charlotte. Mae'n rhaid i'r aelodau dalu £10 am bob ffilm ac mae Charlotte yn casglu'r arian. Gall aelodau wneud mwy nag un taliad y ffilm os ydyn nhw'n dymuno i'r gost ymestyn dros gyfnod ond mae'n rhaid i'r taliadau fod rhwng £3 a £10. Dylai'r broses o olrhain taliadau gynnwys:

- dewis aelod a ffilm
- cofnodi'r swm sydd wedi cael ei dalu
- neilltuo'r dyddiad talu'n awtomatig
- storio'r manylion talu
- rhoi neges addas i Charlotte fel ei bod hi'n gwybod beth sy'n digwydd.

4. **Argraffu adolygiadau o ffilmiau**

Dylai Charlotte allu argraffu adroddiadau o adolygiadau o ffilmiau.